# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 3

YSGOLION SEFYDLEDIG

### 28 Arbedion: cynigion i sefydlu ysgolion sefydledig newydd

(1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn gymwys i gynnig gan awdurdod lleol neu unrhyw berson arall i sefydlu ysgol sefydledig newydd pan fo'r cynnig—

(a) wedi ei gyhoeddi o dan adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 cyn bod adran 26 wedi dod i rym, a

(b) heb gael ei weithredu'n unol ag Atodlen 6 i'r Ddeddf honno cyn bod adran 26 wedi dod i rym.

(2) Nid oes dim yn adran 26 yn effeithio ar weithrediad darpariaethau Rhannau 2 a 3 o Atodlen 6 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mewn perthynas â'r cynnig.

(3) Mae paragraff 13(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cael effaith fel pe na bai'r diwygiad yn adran 26(3) wedi ei ddeddfu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 28 mewn grym ar 10.7.2011, gweler **a. 33(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 16/11/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 28.